

Deiseb Heddwch Menywod Gweithgaredd Uwchradd 1

Deall Testun yr Apêl

Gweithgareddau i gyd-fynd â'r Symbyliadau ar gyfer y 'Sgwrs Dawel'

Mae'r Apêl Heddwch a ysgrifennodd menywod oedd yn perthyn i Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru at fenywod yn America yn 1923 yn defnyddio iaith a allai deimlo'n rhyfedd i ni heddiw. Maent hefyd yn cyfeirio at bobl a digwyddiadau hanesyddol nad ydym efallai'n gyfarwydd â nhw. Nod y gweithgareddau isod yw cefnogi dysgwyr i wneud synnwyr o'r symbyliadau.

**Sylwch fod yr Apêl wreiddiol wedi'i hysgrifennu yn Saesneg. Rydym felly wedi cadw'r eirfa a'r ymadroddion Saesneg gwreiddiol isod, tra bod y cwestiynau yn Gymraeg.



WCIA

Academi
Heddwch
Cymru


Gwneud yn bosibl gan
 Cronfa
Treftadaeth
Made possible with
Heritage
Fund


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Gweithgareddau Rhagarweiniol: Beth mae'n ei olygu?

A Beth yw ystyr y geiriau canlynol a ddefnyddir yn nhestun yr Apêl?

- appeal
- heritage
- quest
- petition
- Principality
- he proceeded
- memorial
- Congress
- preliminary
- delegate
- reconciliation
- fellowship
- delegation
- verdict
- noxious



B A fedrwch chi ddod o hyd i'r ymadrodd ar y dde sydd yn cyd-fynd â'r ymadrodd ar y chwith?

1 - Thus the work of building the Temple of Peace was begun	i - Rydym am weld amser pan fydd gwledydd yn gallu datrys problemau heb fynd i ryfel.
2 - When, in 1914, the Temple of Peace was shattered to its foundations...	ii - Ni fenywod Cymru, gwlad nad sydd yn casáu unrhyw wlad arall na'i phobl...
3 - We are not actuated by any political motives	iii - Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu heddwch byd
4 - The daughters of a nation whose glory it has been to cherish no hatred towards any land or people...	iv - Rydym yn falch bod (ein gwledydd) eisoes wedi gallu cydweithio...
5 - Whose desire is for the coming on earth of the reign of fellowship and goodwill	v - Does gennym ni ddim agenda gwleidyddol
6 - We long for the day when the affairs of nations shall be subject no longer to the verdict of the sword.	vi - chwarae rôl uniongyrchol yng Nghynghrair y Cenhedloedd
7 - We rejoice in the measure of cooperation which has already been achieved...	vii - Pan ddechreuodd y rhyfel yn 1914
8 - Direct participation in the functions of the Permanent Court of International Justice	viii - sydd yn dyheu am heddwch rhwng gwledydd

2 Cwestiynau i gyd-fynd â'r Symbyliadau ar gyfer y Sgwrs Dawel:

Symbyliad 1:

1 Beth mae'r gair 'memorial' yn ei olygu, yn eich barn chi?

2 Pryd ddigwyddodd hyn?

3 Pam ydych chi'n meddwl bod menywod o Gymru yn teimlo bod angen iddyn nhw apelio at fenywod yn yr Unol Daleithiau?

Symbyliad 2:

1 Beth sy'n eich taro chi am y menywod hyn?
(e.e. eu dillad? Y ffordd maen nhw yn sefyll?)

2 Ble maen nhw, yn eich barn chi?

3 Beth maen nhw yn ei ddal, tybiwch chi?

4 Beth maen nhw am ei gyflawni?

Symbyliad 3:

1 Pwy oedd Elihu Burritt?

2 Pwy oedd Henry Richard?

3 Beth wnaethon nhw gyda'i gilydd?

4 Pam mae hyn yn berthnasol i'r bobl sgrifennodd yr Apêl?

Symbyliad 4:

1 Beth mae'r awduron am ei gyflawni?

2 Beth mae cydweithio rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau eisoes wedi'i gyflawni?

3 Beth yw eu hamcan – nawr a thymor hir?

Symbyliad 5:

1 Dyddiadur pwy yw hwn, yn eich barn chi?

2 Beth yw arwyddocâd y cyfeiriad at yr Arlywydd Wilson a Versailles?

3 Mae'r awdur yn cyfeirio at 'the Movement'. Beth mae hi yn ei olygu, yn eich barn chi?

4 Pam y sonnir am y menywod o Gymru fel 'Ambassadors of Peace'?

Symbyliad 6:

1 Beth yw ystyr 'our act of memorial'?

2 Beth yw arwyddocâd y gist? Beth oedd ynddi?

3 Pam oedd yr awdur wrth ei bodd gyda'r digwyddiad, yn eich barn chi?

Symbyliad 7:

1 Beth oedd nod ymweliad y menywod â'r Arlywydd Coolidge?

2 Beth wnaeth e addo ei wneud?

3 Mae cyfeiriad at 'an army of reporters' y tu fas i'r Tŷ Gwyn wedyn. Pam?

